

Gweithio ar eich ben eich hun- argymhellion arfer dda

Camau i leihau Risg:

Dylai aelodau o'r tîm ddarllen y ddogfen "Lone Working" gan yr "Health a Safety Executive" a hefyd dogfen "Suzy Lamplugh Trust Lone Working" ac wedyn dilyn y camau isod a thrafod unrhyw beth sydd yn peri pryder i chi yn syth gyda'r rheolwr llinell.

Calendr- sicrhau fod eich calendr gwaith yn gyfredol gydag enw, cyfeiriad, cod post a rhif cyswllt y llefydd rydych yn ymweld â nhw yn glir ar eich calendr.

Sicrhau fod gan eraill o fewn y tîm fynediad i'ch calendr, gan gynnwys y rheolwr prosiect a phrif swyddog y fenter Leol

Sicrhau fod gennych eich **ffôn symudol** a bod digon o fatri yn y ffôn

Cysylltwch gydag aelod o'r tîm i nodi eich bod wedi cyrraedd adref yn saff (os ydych yn gweithio oriau anghymdeithasol) Byddai'n syniad cael system "ffrindiau" rhanbarthol ble mae'r tîm yn cysylltu gyda'r lleill yn yr ardal a'r rheolwr i gadarnhau fod popeth yn iawn, a bod terfyn amser i'r rheolwr/ aelodau eraill o'r tîm gysylltu os nad oes neges wedi dod.

Ystyriwch wrth i chi drefnu cyfarfod gyda busnesau / cymdeithasau / eraill:

- Pa amser o'r dydd mae'r cyfarfod?
- Ym mhle mae'r cyfarfod?
- Pwy a faint fydd yn bresennol?
- Awgrymir peidio â chwrdd ag un unigolyn am y tro cyntaf tu allan i oriau swyddfa arferol.

Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Rheoli ar..... Chwefror 1af, 2018

I'w adolygu ar Chwefror 1af, 2019

